

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn
Neuadd Bentref Brithdir
Nos Fawrth, Hydref 16, 2018 am 7:30 o'r gloch.**

Preseanol Cyngorwyr: Mordaf Roberts (Cadeirydd), Peredur Jenkins, Rhun Prys Jones, Barry Jones, Hugh A. Evans, Meurig Ashton, Emlyn Roberts, Gerallt Griffith, Llion Rh. Williams. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd Croesawyd pawb oedd yn bresennol.

2. Ymddiheuriadau: Llion Rh. Williams.

3. Datgan diddordeb.

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Medi 18, 2018

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Medi 18, 2018

Nid oedd materion yn codi.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (20/9/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am eu cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd bydd yn cael ei gynnal yn Llyfrgell Rydd, Dolgellau ar ddydd Mercher, Medi 26, 2018 am 7.00yh. Bydd cyflwyniad yn cael ei roi gan Swyddog o Enwebiad Safle Treftadaeth Byd Llechi Cymru. Amgáu mae Agenda, Cofnodion Pwyllgor Ardal Meirionnydd cynhalwyd ar Fai 23, 2018, Cofnodion Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol ar Mehefin 8, 2018, ac adroddiad Panel Adolygu Annibynnol ar Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru – Canfyddiadau ac Argymhellion Amlinellol.

Rhai argymhellion sydd gan Panel Adolygu Annibynnol ar Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru – Canfyddiadau ac Argymhellion Amlinellol:

Dylai fod mwy o eglurder ynghylch y pwerau sydd ar gael i gynghorau cymuned a thref.

Dylid pob Clerc feddu ar gymhwyster proffesiynol a dylid disgwyl CILCA (Certificate in Local Council Administration) fel y cymhwyster isafol disgwyliedig. Dylid penodi clercod o restr genedlaethol gymeradwy.

Dylid Llywodraeth Cymru sicrhau bod pecyn craidd o hyfforddiant yn orfodol ar gyfer pob cynghorydd fel gofyniad i dderbyn y swydd.

Dylid Awdurdodau Lleol gael fforymau partneriaeth gyda chynghorau cymuned a thref.

Ni ddylid cyfethol Cyngorwyr am fwy nag un tymor olynol.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION HYDREF 16, 2018

Dylid fod yn ofynnol yn gyfreithiol i gynghorau cymuned a thref gynnal cyfarfod cyhoeddus flynyddol.

b. Llythyr (21/9/2018) oddi wrth Uned Gyfathrebu ac Ymgysylltu, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am ymgysylltu cyhoeddus 'Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi' i roi cyfle i drigolion a sefydliadau rhoi gwybod pa wasanaethau sy'n bwysig i wario arnynt o 2019 ymlaen. Mae holiadur a chyfarfodydd cyhoeddus. Mae angen ymateb cyn Tachwedd 2. Amgáu mae posteri i'w arddangos a holiadur. Rhoddwyd poster ar hysbysfyrddau yn Llanfachreth, Rhydymain a Brithdir.

c. Llythyr (20/9/2018) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn rhoi gwybod bydd gwaith draenio, torri llystyfiant, cyfeirbwyntio ac atgyweirio pont yn cael ei wneud ar lwybr wrth Cae'r Defaid.

ch. Llythyr (5/10/2018) oddi wrth YGC, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mai gwaith ail godi wal gynnal ar y Lôn Lefel bron a gorffen ac mi fydd y ffordd yn cael ei hail agor 5/10/2018. Tra bydd y ffordd ar agor, mi fydd gan y contractwr dal beth gwaith gorffen e.e. tynnu'r sgaffald a thacluso ochr y ffordd fydd yn golygu y gallai fod peiriannau ar y ffordd am gyfnodau yn cael eu llwytho a.y.y.b. Gall hyn achosi ychydig o oedi i unrhyw un fydd yn defnyddio'r ffordd yn ystod y dyddiau nesaf. Maent yn ddiolch i'r trigolion lleol am eu hamynedd dros y misoedd diwethaf tra roedd y ffordd ar gau.

Penderfynwyd rhoi gwybod i YGC ein bod yn ddiolchgar ac yn gwerthfawrogi'r gwaith cafodd ei wneud.

d. Llythyr (11/10/2018) oddi wrth Adran Tai, Cyngor Gwynedd ynglŷn â Cynhadledd Flynyddol Cyngor Pobl Hyn Gwynedd bydd yn cael ei gynnal yn Y Ganolfan, Porthmadog am 10.30yb ar Tachwedd 16, 2018. Y testun fydd "Taclo Unigrwydd mewn Cymunedau". Bydd nifer o stondinau gan wasanaethau cymorth yn rhan o'r gynhadledd yn ogystal â chwmmi Beti George fel y brif siaradwraig. Mae rhaid cofrestru ymlaen llaw i sicrhau lle a chinio yn y gynhadledd.

dd. Llythyr (12/10/2018) oddi wrth Cymdeithas yr Iaith yn rhoi gwybod maent yn cynnal eu Cyfarfod Cyffredinol ar ddydd Sadwrn, 13eg o Hydref am 10:30 yng Nghell B, Mlaenau Ffestiniog.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Nid oedd adroddiad.

8. Materion Ariannol

a. Llythyr (19/8/2018) oddi wrth BDO, ein Harchwilydd Allanol. Maent yn rhoi gwybod:

1. Nid yw'r Cyngor wedi cofnodi y Cod Ymddygiad yn ystod y flwyddyn oedd ei angen. Rhaid i'r Cod fod i Model Cod Ymddygiad (Cymru) (Diwygiad) 2016 neu mae'r Cyngor yn torri'r rheoliadau.

2. Er bod praesept wedi'i wneud, nid oedd y Cyngor wedi paratoi cyllideb i gefnogi'r cais am braesept (Cymru). Felly nid oedd gwaith monitro'r gyllideb wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi dangos diffyg rheolaeth ariannol dros wario a derbyn arian cyhoeddus ac roedd yn agored i'r risg o orwario. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn datgan bod rhaid 'gwneud y cyfrifiadau gofynnol'.

3. Nid oes gan y Cyngor gofrestr asedau ac felly nid yw'n gallu cadarnhau cost prynu neu gost procsi. Mae'r cyngor mewn perygl o beidio â diogelu ei asedau ac o beidio â chydymffurfio ag arferion priodol fel sydd wedi eu nodi yn y Canllaw Ymarferwyr.

Er hyn, nid yw'r uchod yn golygu nad yw'r cyngor wedi gwneud y gwaith, ond yn hytrach fod y cyngor wedi methu â darparu tystiolaeth i ddangos eu bod wedi ei wneud. Mae'r mater uchod wedi ei godi o ganlyniad i'r cyngor peidio gweithredu o ganlyniad i eu hymholiadau blaenorol sydd wedi cael eu hanfon allan sawl gwaith.

Mae cynig i ni drafod y mater ymhellach neu os rydym yn credu ein bod wedi cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol, i ni ateb eu e-bost cyn gynted â phosibl gan nodi'n glir y rheswm pam ein bod yn credu ein bod wedi cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ac atodi unrhyw ddogfennaeth berthnasol i brofi hyn. Bydd uwch aelod o'r tîm yn cysylltu â ni i drafod y materion ymhellach.

Os ni chant glywed gannem o fewn 7 diwrnod, bydd yr amod yn cael ei osod.

Ni dderbynwyd eu cynnig i drafod y mater ymhellach. Nid oes fwy o wybodaeth i roi iddynt.

b. Gofynnwyd i Peredur Jenkins gwneud ymoliadau gyda ein Archwilydd Mewnol am arweiniad gyda'r materion godwyd gan BDO. Anfonwyd llythyr (25/9/2018) i Swyddog yr Adran (Ms Eva Williams) yn gofyn am arweiniad ynglŷn â chyllideb a monitro cyllideb.

Llythyr ateb (27/9/2018) oddi wrth Eva Williams yn rhoi eglurhad ynglŷn ein pryderon. O'r llythyr:

Rydym yn gwneud gwaith monitro'r gyllideb o dan item Materion Ariannol yn y Cofnodion, gwybodaeth ni roddwyd i BDO.

Nid oes ffurflen benodol i gofrestru asedau.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION HYDREF 16, 2018

c. Gwnaethpwyd ymoliadau gyda Un Llais Cymru (20/9/2018) am gopiau diweddaraf o Cod Ymddygiad, Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Cyllidol, Polisi Iaith a Phrotocol. Derbyniwyd copiau o Cod Ymddygiad, Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Cyllidol ac anfonwyd hwy ymlaen i Elfed ap Gomer i'w rhoi ar ein gwefan (25/9/2018).

ch. Llythyr (24/9/2018) oddi wrth BDO yn rhoi gwybod os na fydd yr archwiliad wedi'i orffen a dim barn archwilio wedi'i chyhoeddi cyn 30 Medi 2018, mewn perthynas â'r Datganiadau Cyfrifo am y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2018, mae angen i ni ei gyhoeddi. Amgáu mae hysbysiad yn nodi hyn ac angen ei arddangos am 14 diwrnod o 30 Medi 2018 mewn lle amlwg.

d. Llythyr (28/9/2018) a dogfennau oddi wrth BDO LLP. Amgáu mae: Hysbysiad diwedd yr archwiliad – mae angen ei arddangos mewn lle amlwg am 14 diwrnod o Medi 30, 2018. Rhoddwyd copi ar hysbysfyrddau Llanfachreth, Rhydymain a Brithdir.

Nodiadau ynghylch hysbysiad Diwedd yr Archwiliad

Materion yn codi yn sgil yr archwiliad -

Ni chofnodwyd adolygiad o'r asesiad risg yn ystod 2017/18 ac mae angen gwneud hyn yn flynyddol.

Ni chofnodwyd derbyn y Cod Ymddygiad ac mae angen ei fabwysiadu a sicrhau bod pob cynghorydd yn cydymffurfio â'r Cod.

Nid oedd proses gyllidebu gyda risg o orwario. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod cyllideb ddigonol yn cael ei pharatoi, ac adolygu'r gyllideb yn rheolaeth.

Nid oes gan y Cyngor gofrestr asedau ac felly nid yw'n gallu cadarnhau cost prynu. Mae angen cofrestr asedau a gwybod cost prynu'r asedau.

Man mater – Roedd camgymeriad o £1 yn Rhan 1 o'r Ffurflen Flynyddol.

Cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol – Mae rhaid sicrhau fod pob blwch wedi ei gwblhau.

Argymhellion yr Archwilydd Mewnol – Maent yn nodi gwendidau yn ein systemau ariannol ac mae rhaid ini weithredu'r argymhellion gafodd eu rhoi i wella ein systemau ariannol .

Pwerau gwariant - pŵer A137 yn cael ei ddefnyddio'n anghywir. Cafodd cyfraniadau eu gwneud tuag at Eisteddfod allai fod wedi cael eu hawdurdodi dan Adran 145 Deddf Llywodraeth Leol 1972, darparu adloniant a chefnogi'r celfyddydau. Ni ellir cofnodion taliad dan Adran 137 os oes grym statudol arall yn bodoli.

Mae asedau sefydlog wedi eu dangos ar werth prisiant yn hytrach na chost prynu.

Mae ein hasedau sefydlog ar swm prisiant. Dylai pob ased gael gynnwys ar bris cost. Nid oes disgwyl i werth cost asedau newid oni bai bod ased yn cael ei waredu neu ei sgrapio.

Y Broses Gyllidebu. Er bod praecept wedi'i osod a cyllideb wedi'i pharatoi, ni wnaeth y Cyngor gwaith monitro digonol ar y gyllideb. Nid oes rheolaeth ariannol dros wario a derbyn arian cyhoeddus. Rhaid i'r Cyngor adolygu'r gyllideb yn rheolaidd.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION HYDREF 16, 2018

Ffurflen dewis dyddiadau ar gyfer 2018/19 – Ei adael ar Mehefin 30 fel rhoddwyd gan BDO.

Manylion cyswllt – mae angen cynwys y Cadeirydd.

Arolwg 2017/18 – angen rhoi marciau ar waith BDO.

Ffurflen Flynyddol – mae angen ei gyflwyno i'r Cyngor a gwneud cofnod fod y ffurflen wedi cael ei chymeradwyo a'i dderbyn gan y Cyngor. Mae'r Ffurflen yn cynnwys y nodyn: 'Mae nifer o achosion o dorri Arferion Priodol, rheoliadau neu ddeddfwriaeth wedi eu nodi yn ein barn – gweler yr adroddiad amgaeedig'.

Penderfynwyd cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol a'i dderbyn. Penderfynwyd hefyd cynwys enw'r Cadeirydd a chwblhau ffurflen yn rhoi marciau i BDO.

dd. Llythyr (2/10/2018) oddi wrth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol gyda eu dogfen drafft Adroddiad Blynyddol 2019/20. Mae'r wybodaeth yw gael ar

[Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2019](#)

e. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Medi, 2018: £1,137.43.

f. Balans yn y banc ar 29 Medi, 2018: £6,677.97.

ff. Gwariant sy'n debygol am weddill y flwyddyn gan ddefnyddio ffigyrau 5/10/2017 – 31/3/2018 fydd £4,001.64. Mae £4,001.64 < £7,815.40, felly nid oes risg o gorwario.

9. Adroddiad Cynghorvdd Peredur Jenkins

a. Gyda'r toriadau yn y gyllideb gan Gaerdydd mi fydd toriadau yn y gwasanaethau mae Cyngor Gwynedd yn ei roi.

10. Unrhyw fater arall

a. Gofynwyd (19/9/20128) i A.M. Ashton trwsio drws hysbysfwrdd Rhydymain. Roedd wedi torri oherwydd y gwynt.

b. Rhoddwyd gwybod (20/9/2018) i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae coeden wedi disgyn ar draws y ffordd sy'n mynd heibio Ty'n Twll, Llanfachreth. Mae'n iawn i gar mynd heibio ond nid cerbyd uchel.

c. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen:

a. symud y bin halen sydd wrth Arran Hall i groesffordd Eisingrug, Rhydymain. Os bydd traferth iddynt gysyllty â Hugh A. Evans (07922775265).

b. rhoi halen yn y bin sydd wrth Abergeirw Bach.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION HYDREF 16, 2018

ch. Penderfynwyd dod a map i'r cyfarfod nesaf i ddangos y llwybr cyhoeddus Pont y Llew i Bontnewydd.

Llofnod:

Dyddiad: